CIWB

**Tasg 1**

# Dathlu

1. Edrychwch ar ddechrau'r ffilm eto.
   Beth mae'r bobl yn dathlu, tybed?

   Ysgrifennwch eich syniadau chi isod a rhowch resymau dros eich atebion.

   Dyma ychydig o help i chi:

| | |
|---|---|
| Maen nhw'n dathlu ... achos ...<br>Dw i'n meddwl bod y bobl yn dathlu ... achos ...<br><br>Dw i'n meddwl eu bod nhw'n dathlu ... achos ... | They're celebrating ... because ...<br>I think that the people are celebrating ... because ...<br>I think that they're celebrating ... because ... |

| |
|---|
| |

Beth ydych chi'n dathlu?
Beth?
Pryd?

Ysgrifennwch yn y grid ac yna dwedwch wrth bartner.

| Beth? | Pryd? |
|---|---|
| | |

2. Gwrandewch ar y darn eto.

a. Beth ydy'r cwestiynau yn y darn? Ysgrifennwch nhw yma.

b. Gofynnwch y cwestiynau yma i berson arall yn y dosbarth.

c. Pam mae'r cyflwynydd yn defnyddio "chi" ddim "ti"?

ch. Gyda pwy ddylech chi ddefnyddio "chi" a "ti"?

| **Pwy** | **Chi** neu **ti** |
|---|---|
| | |

| Geirfa | |
|---|---|
| tybed | I wonder |
| isod | below |
| syniadau | ideas |
| rhesymau | reasons |
| cyflwynydd | presenter |
| ddylech chi | should you |

3. Ydych chi'n dathlu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr?
• **Beth** ydych chi'n dathlu?

• **Ble** ydych chi'n dathlu?

• **Pryd** ydych chi'n dathlu?

• **Gyda pwy** ydych chi'n dathlu?

• **Sut** ydych chi'n dathlu?

• **Pam** ydych chi'n dathlu?

Gwnewch nodiadau.

4. Chwarae rôl
**Partner 1:** Chi ydy'r cyflwynydd ar y rhaglen **Dathlu**. Gofynnwch gwestiynau i berson ar y stryd (Partner 2). Defnyddiwch y cwestiynau yn 2. uchod i'ch helpu chi os ydych chi eisiau.
**Partner 2:** Rydych chi'n cerdded ar y stryd ac mae cyflwynydd y rhaglen **Dathlu** yn eich stopio chi i ofyn cwestiynau. Atebwch y cwestiynau. Defnyddiwch eich nodiadau yn 3. uchod os ydych chi eisiau.

Beth am recordio'r sgwrs?

5. Mae'r cyflwynydd yn gofyn i chi ysgrifennu am Dathlu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr achos mae e eisiau rhoi'r wybodaeth ar wefan y rhaglen. Ysgrifennwch am:

• **beth** rydych chi'n dathlu
• **ble** rydych chi'n dathlu
• **pryd** rydych chi'n dathlu
• **gyda pwy** rydych chi'n dathlu
• **sut** rydych chi'n dathlu
• **pam** rydych chi'n dathlu.

| Geirfa | |
|---|---|
| nodiadau | notes |
| uchod | above |
| gwefan | website |